**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Siân Gwenllian AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

07 Chwefror 2020

Annwyl Siân

**Cwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad: WAQ79298, WAQ79299 a WAQ79330**

Gwnaethoch gyflwyno'r Cwestiynau Ysgrifenedig canlynol yn ddiweddar i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol:

> *WAQ79298 - A wnaiff y Gweinidog gadarnhau os yw swydd Pennaeth y Gangen Cynllunio Addysg yn Is-adran y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru yn wag, ac os ydyw, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau ers pryd y bu'n wag?*
>
> *WAQ79299 - A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi siart strwythur staffio ar gyfer Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu'r newidiadau i strwythur yr adran yn dilyn y cyhoeddiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd ynglyn â sefydlu Prosiect 2050?*
>
> *WAQ79330 - Ymhellach i WAQ79297 a wnaiff y Gweinidog gadarnhau faint o staff sydd yn gweithio yn ei swyddfa breifat a faint ohonynt sy'n rhugl yn y Gymraeg?*

Gan fod y cwestiwn hwn yn ymwneud â staffio o fewn Llywodraeth Cymru, mae'r Gweinidog wedi gofyn i mi ymateb yn uniongyrchol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae swydd Pennaeth y Gangen Cynllunio Addysg yn Is-adran y Gymraeg yn wag ar hyn o bryd, wedi i ddeiliad blaenorol y swydd adael y swydd rhyw ddwy flynedd yn ôl. Ers hynny, mae aelodau eraill o'r Is-adran wedi bod yn cyflawni dyletswyddau'r swydd, gan sicrhau dilyniant. Mae strwythur Is-adran y Gymraeg wrthi'n cael ei adolygu a gwneir cyhoeddiadau pellach ynghylch prosiect 2050 yn fuan. Ni fyddwn am achub y blaen ar yr adolygiad hwnnw drwy gyhoeddi siart strwythur ar hyn o bryd ond byddaf yn sicrhau'ch bod yn cael diweddariad maes o law.

Mae pedwar aelod o staff yn Swyddfa Breifat Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac mae pob un o'r pedwar yn siarad Cymraeg.

yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en